OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1218 (Cy.133)

LANDLORD A THENANT, CYMRU

Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2004

Wedi'i wneud	- -	*27 Ebrill 2004*
Yn dod i rym	- -	*30 Ebrill 2004*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 4 o Atodlen 6 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986(**1**), ac a freiniwyd ynddo bellach(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:—

Teitl, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2004 a daw i rym ar 30 Ebrill 2004.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at "yr Atodlen" yn gyfeiriad at yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at offeryn y Gymuned Ewropeaidd yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw ac unrhyw ddiwygiad i'r cyfryw offeryn sydd mewn grym ar y dyddiad y gwneir y Gorchymyn hwn.

(4) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "Rheoliad 2529/01 y Cyngor" ("*Council Regulation 2529/01*") yw Rheoliad (EC) Rhif 2529/01 y Cyngor ar drefniadaeth gyffredin y farchnad mewn cig dafad a chig gafr(**3**);

ystyr "Rheoliad 1251/99 y Cyngor" ("*Council Regulation 1251/99*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1251/99 y Cyngor sy'n sefydlu system gynnal i gynhyrchwyr cnydau âr penodol(**4**);

ystyr "Rheoliad 1254/99 y Cyngor" ("*Council Regulation 1254/99*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1254/99 y Cyngor ar drefniadaeth gyffredin y farchnad mewn cig eidion a chig llo(**5**).

(**1**) 1986 p.5.
(**2**) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog (a ddiffiniwyd yn adran 96(1) o'r Ddeddf fel yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru) o dan baragraff 4 o Atodlen 6 o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
(**3**) OJ Rhif L341, 22.12.01, t.3.
(**4**) OJ Rhif L160, 26.6.99, t.1 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1038/01 (OJ Rhif L145, 31.5.01, t.16).
(**5**) OJ Rhif L160, 26.6.99, t.21, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 806/03 (OJ Rhif L122, 16.05.03, t.1).

Asesiad o gynhwysedd cynhyrchiol y tir

2.—(1) Mae paragraffau (2) a (3) o'r erthygl hon yn cael effaith at ddibenion asesu cynhwysedd cynhyrchiol uned o dir amaethyddol a leolir yng Nghymru, er mwyn penderfynu a yw'r uned honno'n uned fasnachol o dir amaethyddol o fewn ystyr is-baragraff (1) o baragraff 3 o Atodlen 6 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986.

(2) Pan ellir defnyddio'r tir dan sylw, wrth ei ffermio o dan reolaeth gymwys, i gynhyrchu unrhyw dda byw, cnwd, ffrwythau, neu gynnyrch amrywiol, fel a grybwyllir yn unrhyw un o gofnodion 1 i 6 yng ngholofn 1 o'r Atodlen, yna —

(a) yr uned a bennir yng ngholofn 2 o'r Atodlen gyferbyn â'r cofnod hwnnw fydd yr uned gynhyrchu a ragnodir mewn perthynas â'r defnydd hwnnw o dir, a

(b) y swm a bennir yng ngholofn 3 o'r Atodlen gyferbyn â'r uned gynhyrchu honno fydd y swm a benderfynir am y cyfnod o 12 mis yn dechrau gyda 12 Medi 2002 fel yr incwm blynyddol net gan yr uned gynhyrchu honno yn y cyfnod hwnnw.

(3) Pan fydd tir y gellir ei ddefnyddio, wrth ei ffermio o dan reolaeth gymwys, i gynhyrchu incwm blynyddol net, yn wrthrych taliadau Tir Mynydd neu wedi'i ddynodi fel neilltir, fel a grybwyllir yng nghofnodion 7 ac 8 yng ngholofn 1 o'r Atodlen, yna —

(a) yr uned a bennir yng ngholofn 2 o'r Atodlen gyferbyn â'r cofnod hwnnw fydd yr uned gynhyrchu a ragnodir mewn perthynas â'r defnydd hwnnw o'r tir, a

(b) y swm a bennir yng ngholofn 3 o'r Atodlen gyferbyn â'r uned gynhyrchu honno fydd y swm a benderfynir am y cyfnod o 12 mis yn dechrau gyda 12 Medi 2003 fel yr incwm blynyddol net gan yr uned gynhyrchu honno yn y cyfnod hwnnw.

(4) Mae'r Atodlen yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r Nodiadau i'r Atodlen.

Dirymu

3. Dirymir Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2003(**6**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**).

John Marek
27 Ebrill 2004 — Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) O.S. 2003/4 (Cy.2).
(**7**) 1998 p.38.

YR ATODLEN Erthyglau 1(2) a 2

RHAGNODI UNEDAU CYNHYRCHU A PHENDERFYNU INCWM BLYNYDDOL NET

Colofn 1 *Defnydd ffermio*	*Colofn 2* *Uned gynhyrchu*	*Colofn 3* *Incwm blynyddol net gan uned gynhyrchu* *£*
1. Da byw		
Buchod llaeth:		
Bridiau Ynysoedd y Sianel	buwch	373
Bridiau eraill	buwch	460
Buchod bridio cig eidion:		
Ar dir cymwys o dan Reoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001(**8**)	buwch	43(1)
Ar dir arall	buwch	73(1)
Gwartheg pesgi cig eidion (lled arddwys)	pen	75(2)
Buchod llaeth i lenwi bylchau	pen	35(3)
Mamogiaid:		
Ar dir cymwys o dan Reoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001	mamog	11(4)
Ar dir arall	mamog	19(5)
Ŵ yn stôr (gan gynnwys ŵ yn benyw a werthir fel hesbinod blwydd)	pen	1.00
Moch:		
Hychod a banwesi torrog	hwch neu fanwes	85
Moch porc	pen	1.75
Moch torri	pen	3.25
Moch bacwn	pen	5.00
Dofednod:		
Ieir dodwy	aderyn	1.00
Brwyliaid	aderyn	0.12
Cywennod ar ddodwy	aderyn	0.25
Tyrcwn Nadolig	aderyn	2.00
2. Cnydau âr fferm		

(**8**) O.S. 2001/496 (Cy.23) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/1806 (Cy.176).